OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 1488 (Cy.153) (C.58)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Gwastraff a Masnachu Allyriannau 2003 (Cychwyn) (Cymru) 2004

*Wedi'i wneud - - 8 Mehefin 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 40 o Ddeddf Gwastraff a Masnachu Allyriannau 2003(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Gwastraff a Masnachu Allyriannau 2003 (Cychwyn) (Cymru) 2004.

### Cychwyn

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) daw adrannau 4, 5, 9, 10, 19 a 35(a) ac (c) o Ddeddf Masnachu Gwastraff ac Allyriannau 2003 i rym ar 25 Mehefin 2004.

(2) Mae adrannau 4, 5, 9, 10 a 35(a) yn cael eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru(**2**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*
8 Mehefin 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 2003 p.33.
(**2**) Mae adrannau 19 a 35(c) yn ymwneud â Chymru yn unig.
(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau adrannau 4, 5, 9, 10, 19 a 35(a) ac (c) o Ddeddf Gwastraff a Masnachu Allyriannau 2003. Dim ond mewn perthynas â Chymru y mae adrannau 4, 5, 9, 10 a 35(a) yn cael eu dwyn i rym.

Mae adran 4 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyrannu ymhlith awdurdodau gwaredu gwastraff yng Nghymru, ar gyfer pob blwyddyn gynllun, lwfansau yn eu hawdurdodi i anfon gwastraff trefol pydradwy i safleoedd tirlenwi.

Mae adran 5 o'r Ddeddf yn caniatáu i'r Cynulliad newid y dyraniadau a wneir o dan adran 4.

Mae Adran 9 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau gwaredu gwastraff i beidio â mynd dros y lwfans a bennir o dan adran 4 ac yn peri iddynt fod yn agored i gosb am fethu â chyflawni'r ddyletswydd hon.

Mae Adran 10 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad benodi awdurdod monitro i Gymru.

Mae Adran 19 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gael strategaeth ar gyfer lleihau faint o wastraff pydradwy o Gymru sy'n mynd i safleoedd tirlenwi a faint o wastraff pydradwy o'r tu allan i Gymru sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yng Nghymru.

Mae adran 35(a) ac (c) yn diddymu'r darpariaethau yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a Deddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n ymwneud â dyletswyddau i baratoi cynlluniau ailgylchu yng Nghymru.

Cafodd adrannau 2 a 39 o'r Ddeddf eu dwyn i rym gan Orchymyn Deddf Gwastraff a Masnachu Allyriannau 2003 (Cychwyn Rhif 1) 2004 (O.S. 2004/1163).